---

**21ain Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**
**Dydd Mercher, 25 Medi 2019**
**10:30am tan 12:30pm**
**Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**
**Cofnodion**

---

## AELODAU

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**

Julie James AC, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol – Cadeirydd
Hannah Blythyn AC, Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Kirsty Williams AC, Y Gweinidog Addysg
Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Y Cyng. Debbie Wilcox (Casnewydd)
Y Cyng. Andrew Morgan (RhCT)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)
Y Cyng. Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Peter Fox (Sir Fynwy)
Y Cyng. Dyfrig Siencyn (Gwynedd)

**Comisiynwyr Heddlu a Throseddu**

Y Gwir Anrh. Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Peter Curran – Cyfarwyddwr Cyllid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nigel Aurelius – Torfaen (Prif Swyddog Cyllid)

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

Paul Griffiths – Cynghorydd Arbennig
Alex Bevan – Cynghorydd Arbennig
Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau Gweithlu
Matthew Wellington – Pennaeth Gweithredu'r Gyllideb, Trysorlys Cymru

## YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)

**Eitem Agenda 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i bedwerydd cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid yn 2019. Estynnodd longyfarchiadau i'r Cyng. Wilcox ar gael ei hurddo i Dŷ'r Arglwyddi yn ddiweddar.

**Eitem Agenda 2: Cofnodion a Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol (Papur 1)**

2. Cadarnhawyd y camau gweithredu. Nododd y grŵp ddau sylw ar gofnodion y cyfarfod blaenorol:
   - Paragraff 25, er iddo nodi'n gywir mai rhagdybiaeth gyllidebol Torfaen oedd y byddai cyflogau Athrawon yn codi 2%, dylai adlewyrchu nad yw hyn yn golygu bod gan y cyngor y cyllid i ddiwallu'r pwysau hyn.
   - Paragraff 15, cadarnhaodd Jon Rae fanylion y papur dan sylw ac awgrymodd nad oedd angen cylchredeg y papur, gan ei fod ar gael ar-lein.

**Eitem Agenda 3: Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth – Yr Economi Sylfaenol**

3. Amlygodd Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth (y Dirprwy Weinidog) y symud i ffwrdd rhag ymagwedd sector ac ymagwedd yn canolbwyntio ar yr Economi Sylfaenol. Amlinellodd dri llinyn yr 'Economi Sylfaenol':

- Cronfa Her yr Economi Sylfaenol, a oedd yn gwahodd prosiectau i wneud cais am hyd at £100,000 i roi ymagweddau gwahanol ar brawf, datblygu cymuned gref o ymarfer a dysgu am yr hyn sy'n gweithio.
- nodi ac ehangu arfer da presennol, a'i ymestyn ar raddfa fwy drwy'r Byrddau Partneriaeth Cyhoeddus.
- cymorth i gwmnïau "sydd â'u gwreiddiau'n ddwfn yn eu cymunedau", gyda'r Dirprwy Weinidog yn rhannu'i brofiadau diweddar o ymweld â chwmnïau gyda'r Cyng. Hunt yn Nhorfaen.

4. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog enghraifft o waith a wneir fel rhan o ymagwedd Cyngor Preston at "adeiladu cyfoeth yn lleol", lle'r oedd chwe sefydliad angori lleol yn ailgyfeirio'u pŵer prynu at gwmnïau lleol. Heb gynyddu'u costau cyffredinol na gostwng ansawdd, roedd y gwariant lleol wedi cynyddu o 5% i 18%.
5. Dywedodd y Cyng. Pritchard fod y gyllideb ar gyfer datblygu economaidd, yn ei awdurdod ef, wedi gostwng tua 60%. Ni fyddai'r gostyngiadau hyn yn helpu gyda'r fenter hon. Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog bod a wnelo hyn â gweithio'n fwy clyfar gyda'r hyn sydd gennym, trwy fod yn gatalydd ar gyfer ffyrdd gwahanol o weithio.
6. Nododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol fod llawer o fythau am reolau caffael a'r hyn y gellid neu na ellid ei wneud. Roedd o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai Llywodraeth Cymru'n darparu ychydig o arweiniad ar hyn. Gobeithiai y gallai'r ymagwedd at weithio'n rhanbarthol trwy gyd-bwyllgorau corfforaethol hefyd helpu i ddwyn sgiliau ac adnoddau at ei gilydd i amlygu arfer da a phroblemau cyffredin. Cytunodd y Cyng. Hunt; roedd ei awdurdod yn

trafod ag awdurdodau cyfagos i ddysgu arferion da oddi wrth ei gilydd, a chroesawodd y cyngor ac unrhyw wybodaeth yn chwalu mythau am gaffael.

7. **Cam gweithredu – Llywodraeth Cymru i ystyried pa arweiniad y gellid ei ddarparu a'i rannu drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.**
8. Cytunodd y Cyng. Stewart â'r ymagwedd at "wario'n lleol" i gefnogi'r gymuned leol, ond teimlai fod hyn yn cynyddu risg methu neu gost uchel. Nododd fod yr ymagwedd hon yn wahanol i'r ymagwedd wreiddiol at y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Awgrymodd Dr Llewelyn fod awdurdodau lleol eisiau defnyddio cwmnïau lleol ar gyfer Prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif ond na allent, oherwydd y rheolau a osodwyd arnynt. Byddai'n croesawu pe bai'r syniadau a awgrymir ar gael cyn dechrau Cyfnod Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.
9. Esboniodd y Gweinidog eu bod, cyn cyhoeddi Blwyddyn 3 y Rhaglen Tai Arloesol, wedi dysgu o'r profiad blaenorol a meddwl am atebion. Nododd y Dirprwy Weinidog fod amgylchiadau pan fo buddion yn deillio o gaffael ar lefel Cymru. Er enghraifft, roedd y Gweinidog Addysg wedi caffael trwyddedau Microsoft ar gyfer pob ysgol yng Nghymru yn ddiweddar, yn hytrach na bod ysgolion yn gorfod gwneud hynny yn unigol.

### Eitem Agenda 4: Adroddiad CLlLC

10. Cyflwynodd y Cyng. Wilcox y papur a dywedodd, er bod llywodraeth leol wedi wynebu toriadau mewn gwariant dros y blynyddoedd, roeddent wedi cydweithio i leihau'r effaith ar ansawdd gwasanaethau. Yna, cyflwynodd Jon Rae bapur CLlLC, gan esbonio mai crynodeb oedd hwn o arolwg a gynhaliwyd ymhlith y 22 awdurdod lleol i amlygu'r pwysau ar eu cyllidebau. Amlygodd ef y cynnydd yng nghostau'r gweithlu, a oedd wedi bron â dyblu ac a fyddai'n cynyddu ymhellach yn sgil cynnydd mewn cyflog a phensiwn llywodraeth leol. Roedd y papur yn amlinellu her parhau i wneud arbedion effeithlonrwydd a nododd fod arbedion effeithlonrwydd, fwyfwy, yn ddim ond gostyngiadau i wasanaethau mewn gwirionedd. Roedd awdurdodau eisoes wedi codi'r dreth gyngor. Ychwanegodd y Cyng. Hunt fod y toriadau wedi arwain at golli llawer o swyddi, sydd wedi effeithio'n anghymesur ar fenywod a chymunedau difreintiedig.
11. Cydnabu'r Gweinidog y pwysau roedd llywodraeth leol yn eu hwynebu o ran tâl y gweithlu. Esboniodd fod y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn cydlynu ymagwedd draws-lywodraethol at dâl ac amodau'r sector cyhoeddus ac yn datblygu set o egwyddorion. Byddai'r Llywodraeth yn croesawu barn llywodraeth leol am y rhain.

### Eitem Agenda 5: Y Gweinidog Addysg

12. Mynegodd y Gweinidog Addysg ei hawydd i allu buddsoddi cymaint o gyllid â phosibl mewn gwasanaethau rheng flaen, ond roedd yn cydnabod pa mor anodd oedd hynny i awdurdodau lleol a oedd hefyd yn wynebu pwysau ar wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill. Esboniodd ei bod wedi derbyn holl argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'i bod yn ymrwymo i adolygu cyllid addysg.
13. Esboniodd y Gweinidog Addysg fod Llywodraeth y DU wedi darparu cyllideb blwyddyn yn unig i Lywodraeth Cymru, er bod Lloegr wedi cyhoeddi cyllideb tair blynedd ar gyfer ysgolion. Cadarnhaodd na chafwyd unrhyw gyllid canlyniadol

gan Lywodraeth y DU ar gyfer cynnydd yn nhâl athrawon, a bu'n rhaid i'r Adran Addysg yn Lloegr ddod o hyd i'r cyllid o'i chyllidebau presennol. Yn yr un modd, gyda'r cynnydd yng nghostau pensiwn, roedd Llywodraeth y DU wedi darparu cyllid i Lywodraeth Cymru ar gyfer 85% yn unig o'r holl gynnydd mewn costau. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu gweddill y costau trwy gronfeydd wrth gefn yn 2019-20. Byddai angen i LlC wneud ei phenderfyniadau cyllidebol yn y cyd-destun hwn.

14. Mewn trafodaeth, holodd y Gweinidog Addysg p'un a oedd gan y grŵp unrhyw awydd i newid y fformiwla dosbarthu cyffredinol, gan nodi y byddai o hyd rhai ar eu hennill ac ar eu colled o fewn y fformiwla, mewn unrhyw adolygiad. Cadarnhaodd y Cyng. Morgan safbwynt CLlLC yn erbyn unrhyw newidiadau i'r fformiwla ar adeg pan roedd cyllidebau yn dynn. Roedd y broblem gyda maint y cyllid a oedd ar gael. Dywedodd y Cyng. Pritchard na ddylai cyllid ysgolion yng Nghymru fod yn ddim is nag yn Lloegr. Ychwanegodd, pe na bai gwelliant yn y cyllid i lywodraeth leol yng Nghymru, byddai'n rhaid i'w awdurdod ef ostwng nifer yr athrawon a chynorthwywyr addysgu, neu dorri cyllid i feysydd gwasanaeth eraill yn sylweddol. Roedd yn cydnabod pwysigrwydd y gwasanaeth iechyd, ond pwysleisiodd fod gwasanaethau ataliol llywodraeth leol, fel addysg a gofal cymdeithasol, yn gostwng yr angen am gyllid yn y dyfodol i'r GIG.

15. Rhestrodd y Cyng. Stewart y toriadau gofynnol yn ei awdurdod pe na roddid cyllid ychwanegol ar gyfer y cynnydd yn nhâl athrawon, gan bwysleisio er bod awdurdodau wedi rhagdybio cynnydd o 2% yn eu cynllunio, roedd hyn yna'n cael ei adlewyrchu mewn toriadau y byddai eu hangen ac a oedd yn cael eu cynllunio mewn mannau eraill. Pwysleisiodd fod cyfathrebu cynnar yn hanfodol i alluogi cynghorau i gynllunio ar gyfer diswyddiadau cyn y Nadolig. Awgrymodd Dr Llewelyn y gallai trosglwyddo grantiau wedi'u neilltuo i'r setliad wella'r cyllid a oedd yn cyrraedd y gwasanaethau rheng flaen. Rhoddodd y Cyng. Hunt sicrwydd bod Llywodraeth Leol, pe bai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion neu ofal cymdeithasol, yn ymrwymo i fuddsoddi'r cyllid hwn yn y gwasanaethau rheng flaen hyn, a oedd yn flaenoriaeth ar y cyd. Cytunodd y Cyng. Stewart mai myth hanesyddol oedd hi fod cyllid yr oedd llywodraeth leol yn ei gael at ddiben penodol ddim bob amser yn cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw.

16. Diolchodd y Gweinidog Addysg i'r grŵp am eu sylwadau a chydnabod y dewisiadau anodd y bu'n rhaid i lywodraeth leol eu gwneud dros y blynyddoedd diwethaf. Amlygodd fod cyllideb yr Adran Addysg yn codi 3.3% yn nhermau real yng nghylch gwario Llywodraeth y DU, ond mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynyddu 2.3% yn unig yn nhermau real. Roedd yr un peth yn wir mewn rhai meysydd eraill. Nid oedd y dewisiadau i Lywodraeth Cymru yn syml.

17. Dywedodd y Gweinidog Addysg ei bod yn deall y pwysau ar lywodraeth leol o ran tâl a phensiynau, ynghyd â'r angen i gynorthwyo â chyflwyno'r cwricwlwm newydd a chydnabod problemau baich gwaith athrawon. Croesawodd hi'r sicrwydd ynghylch cyllid heb ei neilltuo.

**Eitem Agenda 6: Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd – Diweddariad ar Gyllid**

18. Rhoddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd (y Gweinidog Cyllid) fanylion am gylch gwario carlam Llywodraeth y DU, gan nodi bod datganiad y Canghellor yn seiliedig ar bolisïau'r weinyddiaeth flaenorol ac amcangyfrifon y Swyddfa

Cyfrifoldeb Cyllidebol ym Mawrth 2019. Cadarnhaodd fod y gyllideb refeniw ar gyfer Llywodraeth Cymru £593 miliwn yn uwch a bod y gyllideb cyfalaf £18 miliwn yn uwch. Roedd hi'n cynnal trafodaethau dwyochrog ar y gyllideb i ddeall blaenoriaethau portffolio pob Gweinidog.

19. Er y bu cynnydd yn y cyllid ar gyfer iechyd ac addysg, roedd Llywodraeth y DU wedi gostwng Cyllideb Cymru dros £200 miliwn, mae'n debyg mewn perthynas ag addasiad i ardrethi annomestig. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r rheswm dros hyn gyda Thrysorlys EM, ond roedd y Gweinidog yn glir bod rhaid iddi hi gynllunio ar sail y ffigurau cyhoeddedig. Amlygodd, gan nad oedd yr arian hwn wedi'i drosglwyddo yn ffurfiol, roedd sefyllfa Llywodraeth Cymru yn parhau'n ansicr yn wyneb etholiad cyffredinol posibl neu Brexit heb gytundeb. Roedd cyllideb Llywodraeth Cymru bellach wedi'i chynllunio ar gyfer dyddiad cynharach, sef 19 Tachwedd, gyda'r Gyllideb Derfynol i'w chyhoeddi ar 4 Chwefror, yn amodol ar gytundeb gyda Phwyllgor Cyllid y Cynulliad.

20. Dywedodd y Cyng. Wilcox eu bod, o safbwynt llywodraeth leol, yn disgwyl i unrhyw gyllid canlyniadol perthnasol gael ei drosglwyddo'n llawn i lywodraeth leol. Yn ôl eu cyfrifiadau, roedd hwn tua £206 miliwn ar gyfer addysg (£151 miliwn) a gofal cymdeithasol (£54 miliwn). Dywedodd y Cyng. Stewart fod unrhyw addasiad ar gyfer ardrethi annomestig yn broblem i Lywodraeth Cymru ac na ddylai gael unrhyw ddylanwad ar ddarparu cyllid i lywodraeth leol.

21. Pwysleisiodd y Gweinidog Cyllid fod Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar ei blaenoriaethau yn sgil cyfanswm y gyllideb a oedd ar gael, nid yn sgil y cyllid canlyniadol a gafwyd yn gysylltiedig ag adrannau unigol Llywodraeth y DU. Nododd y Gweinidog fod risgiau sylweddol i lywodraeth leol yng Nghymru petaent yn ceisio cymhwyso penderfyniadau Llywodraeth y DU ar gyllid llywodraeth leol i Lywodraeth Leol yng Nghymru. Roedd cyllid ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr wedi gostwng yn sylweddol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol o'i hadnoddau ehangach ei hun, er enghraifft ar gyfer pensiynau athrawon.

22. Gofynnodd y Cyng. Morgan am eglurder ynghylch p'un a fyddai'r £30 miliwn ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2019-20 yn mynd i Brif Grŵp Gwariant Iechyd neu a fyddai'n aros gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w ddefnyddio. Dywedodd y byddai'n bwysig i Gynghorau ddeall manylion dyraniadau grantiau wedi'u neilltuo a'r telerau ac amodau mor gynnar â phosibl. Nid oedd hi'n rhesymol bod rhai grantiau ond yn cael eu cadarnhau ymhell wedi dechrau'r flwyddyn ariannol. Gofynnodd, fel llefarydd CLlLC ar drafnidiaeth, am eglurder ynghylch p'un a fyddai mwy o gyllid cyfalaf ar gael i barhau i foderneiddio ysgolion, ffyrdd a phontydd, rhai ohonynt yr oedd angen dybryd eu trwsio. Heb y cyllid hwn, mae risg y gallai damwain ddifrifol ddigwydd yng Nghymru, felly byddai croeso mawr i unrhyw gymorth ychwanegol.

23. Cadarnhaodd Gweinidogion eu bod yn dymuno bod mor dryloyw â phosibl gyda llywodraeth leol ynghylch y gyllideb. Roedd pen draw ar y gyllideb felly roedd newidiadau i gyllid mewn un maes yn anochel yn golygu effeithiau rhywle arall, ond lle'r oedd newidiadau o'r fath yn effeithio ar grantiau i lywodraeth leol, byddent yn gofalu peidio â chyflwyno hynny i lywodraeth leol fel newyddion da a chyllid newydd. Cadarnhaodd hi fod cyfalaf cyffredinol yn 2020-21 heb ei neilltuo, i'w ystyried yn y gyllideb ac y byddai ail gam y pecyn ysgogi cyfalaf yn cael ei wneud cyn hir.

## Eitem Agenda 8: Unrhyw Fater Arall

24. Diolchodd y Gweinidog i'r Grŵp am y trafodaethau. Gan na fu amser i drafod a chytuno ar adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu, ystyrir y byddai hwnnw wedi'i gymeradwyo oni bai bod ymholiadau neu sylwadau'n cael eu codi o fewn yr wythnos i ddeng niwrnod nesaf.